

DYDD MIWSIG CYMRU

040222

Dydd Miwsig Cymru – Sut i Gystadlu / Telerau ac Amodau'r Ysgol Pop

Sut i gystadlu

1. Dylai pob cystadleuydd lunio cân wreiddiol Gymraeg neu ddwyieithog (gyda chymaint o Gymraeg â phosib) sy'n cyd-fynd â'r thema '*Beth mae'r iaith yn feddwl i ti*'.
2. Defnyddiwch y fideo gan Eädyth a'r pecyn cymorth i athrawon i'ch helpu
3. Dylech recordio fideo ar draws (nid ar i fyny) o'r disgyblion / plant yn perfformio'r gân, ac anogir chi i wneud fideo sydd mor drawiadol â phosib.
4. Ar ôl recordio'r fideo, mae modd anfon cynigion i cymraeg@llyw.cymru a/neu eu rhannu ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol chi neu'r ysgol gan ddefnyddio'r hashnod #YsgolPop a thagio @miwsig

Pob lwc!

Telerau ac Amodau

1. Enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr: Uned y Gymraeg (Llywodraeth Cymru), CP2, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr "Hyrwyddwr").
2. Mae'r gystadleuaeth ar agor i ysgolion cynradd Cymru a rhieni/gwarcheidwaid plant rhwng 5 ac 11 oed sy'n byw yng Nghymru.
3. Mae rhieni/gwarcheidwaid sy'n cyflwyno cân eu plant i'r gystadleuaeth yn gwneud hynny ar ran ysgol y plentyn. Felly os ydych chi'n cystadlu fel unigolyn, cofiwch nodi i ba ysgol mae eich plentyn yn mynd iddi.
4. Does dim angen talu ffi i gystadlu.
5. Mae modd i ysgolion gystadlu fwy nag unwaith, ond mae'n rhaid i bob cân fod yn wahanol.
6. Dylid perfformio'r gân yn Gymraeg, neu yn ddwyieithog gyda chymaint o Gymraeg â phosib.
7. Dylid recordio fideo ar draws (nid ar i fyny).
8. Y dyddiad cau ar gyfer cystadlu yw 4.30pm, dydd Gwener 28 Ionawr 2022. Ar ôl y dyddiad yma, ni fydd ceisiadau i'r gystadleuaeth yn cael eu derbyn.
9. Dylid anfon pob fideo i cymraeg@llyw.cymru. Mae modd anfon unrhyw ymholiadau am y gystadleuaeth i'r cyfeiriad yma hefyd.
10. Drwy gystadlu ac anfon fideo o'r gân at Dydd Miwsig Cymru, tybir bod cydsyniad llawn wedi'i roi gan bob unigolyn yn y fideo. Rydych chi'n caniatáu i Dydd Miwsig Cymru rannu'r fideo ar ei sianeli cyfryngau cymdeithasol – [Twitter](#), [Instagram](#), YouTube a [Facebook](#) – yn ogystal â'r [wefan](#), ac i'r fideo gael ei chwarae ar raglen Stwnsh Sadwrn ar S4C os mai chi fydd yr enillydd. Mae'n bosib y bydd sianeli newyddion â diddordeb yn y gystadleuaeth hefyd, ac am rannu'r fideo.
11. Mae eich preifatrwydd yn hynod bwysig i ni. Er mwyn hwyluso eich gallu i gystadlu, mae'r Hyrwyddwr yn casglu'r wybodaeth amdanoch chi (Data Personol) rydych chi'n ei darparu. Y sail gyfreithiol dros brosesu'r wybodaeth hon yw am ei bod yn anghenreidiol i gyflawni ein

contract gyda chi. Os mai chi fydd yr enillydd, bydd angen i'r Hyrwyddwr rannu Data Personol enillwyr y gystadleuaeth gyda chwmni Working Word PR gan mai nhw sy'n gyfrifol am ddarparu'r wobr. Bydd eich Data Personol yn cael ei gadw gan bartneriaid trydydd parti am 28 diwrnod o'r dyddiad cau, ac yna'n cael ei ddileu.

12. Bydd yr enillydd yn cael neges uniongyrchol (DM) yn ystod yr wythnos yn dechrau ar y 31ain o Ionawr.
13. Yr Hyrwyddwr fydd yn penderfynu ar enillydd y gystadleuaeth, ac mae'r penderfyniad hwnnw'n derfynol.
14. Bydd y cais buddugol yn ennill £250 ar gyfer eu hysgol.
15. Drwy gystadlu, mae ysgolion a rhieni/gwarcheidwaid yn cytuno i fod yn rhwym i'r telerau ac amodau yma.
16. Mae'r Hyrwyddwr yn cadw'r hawl, yn ôl ei ddisgresiwn ac ar unrhyw adeg, i newid neu addasu'r telerau ac amodau yma, a bydd unrhyw newid yn dod i rym ar unwaith ar ôl cael ei bostio i'r wefan hon.
17. Mae'r Hyrwyddwr yn cadw'r hawl hefyd i ganslo'r gystadleuaeth os oes amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth yn codi.
18. Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion canlynol yn berthnasol i'r gystadleuaeth hon: Ni chaiff cystadleuwyr fod ag aelodau o'r teulu sy'n cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru, nac unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth. Yn benodol, pobl sy'n gweithio i'r Hyrwyddwr, aelodau teulu uniongyrchol pobl sy'n gweithio i'r Hyrwyddwr, gweithwyr mewn unrhyw gwmni cysylltiol, gweithwyr mewn unrhyw asiantaeth sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth hon na pherchnogion. I'r diben hwn, mae 'aelod teulu uniongyrchol' yn cynnwys plentyn, llys blentyn, wŷr neu wyres, brawd, llysfrawd, chwaer neu lyschwaer.